



Bod yn Gyngorydd gyda Chyngor Cymuned Clydach

Beth yw Cyngor Cymuned?

Mae cynghorau cymuned a thref yn haen etholedig o lywodraeth leol. Mae'r haen arall yng Nghymru yn cynnwys Awdurdodau Unedol ac yn achos Clydach, Dinas a Sir Abertawe (Cyngor Abertawe) ydyw. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Unedol i ddarparu gwasanaethau megis addysg, cynllunio gwlad a thref, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan gynghorau cymuned a thref y grym cyfreithiol i weithredu, ond mae ganddynt lai o ddyletswyddau a rhyddid i ddewis pa gamau i'w cymryd. Gallant chwarae rhan hanfodol wrth gynrychioli buddiannau eu cymunedau a dylanwadu ar eraill sy'n gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, gallant gymryd camau i wella ansawdd bywyd pobl leol a'u hamgylchedd lleol ac, mewn rhai achosion, gallant ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol.

Mae pob cyngor yn cynnwys aelodau etholedig, neu mewn rhai achosion aelodau cyfetholedig. Mae cyngor cymuned nodweddiadol yn cynrychioli tua 1,500 o bobl ond y boblogaeth fwyaf a wasanaethir gan gyngor tref yw'r Barri gyda dros 50,000. Ar hyn o bryd mae Cyngor Cymuned Clydach yn cynrychioli tua 7,500 o bobl. Mae'r amrywiaeth a geir mewn cynghorau cymuned a thref yn gryfder. Gall pob un ymateb mewn modd unigryw i anghenion eu cymuned gyda sensitifrwydd sy'n fwy anodd i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ei gyflawni. Yng Nghymru mae tua 8,000 o gynghorwyr cymuned a thref sy'n cynrychioli buddiannau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn gyfangwbl. Maent yn cael eu cydnabod fel rhai sydd â rôl wrth ddarparu llais y dinesydd wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yng Nghymru fe'u gelwir yn gynghorau cymuned neu'n gynghorau tref – yn Lloegr fe'u gelwir yn gynghorau plwyf neu dref. Yng Nghymru a Lloegr, maent yn unedau etholedig o lywodraeth leol y rheolir eu gweithgareddau gan Ddeddfau Senedd y DU neu ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Beth mae'r cynghorau hyn yn ei wneud?

Cynghorau cymuned a thref yw'r elfen o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Maent yn gwasanaethu'r ardal leiaf ac yn gyfrifol am y materion mwyaf lleol. Yn bwysig iawn, gall y cynghorau hyn "praesept" – codi swm a gesglir gyda'r dreth gyngor bob blwyddyn i wella cyfleusterau a gwasanaethau i bobl leol.

Mae gan gynghorau cymuned a thref nifer o gyfrifoldebau sylfaenol yn ein cymunedau, gan eu gwneud yn lle gwell i fyw, tyfu, gweithio a dysgu. Yn y bôn, mae'r pwerau hyn yn dod o fewn tri phrif gategori: cynrychioli'r etholaeth gyfan o fewn y gymuned; darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol; ac ymdrechu i wella ansawdd bywyd yn y gymuned.

Mae gan gynghorau cymuned neu dref ystod o bwerau unigol yn cynnwys darparu a chynnal cynlluniau trafndiaeth gymunedol, mesurau tawelu traffig, prosiectau ieuencid lleol,

gweithgareddau twristiaeth, cyfleusterau hamdden, meysydd parcio, lawntiau pentref, cyfleusterau cyhoeddus, biniau sbwriel, goleuadau stryd, glanhau strydoedd, mynwentydd, rhandiroedd, cysgodfannau bysiau, tiroedd comin, manau agored, llwybrau troed, llwybrau ceffylau, a mesurau lleihau troseddau. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cynghorau cymuned a thref i ddarparu mwy o wasanaethau a chwarae mwy o ran yn eu cymunedau.

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 bŵer newydd ar gyfer 'lles' sy'n adlewyrchu menter Llywodraeth Cymru i adfywio democratiaeth leol gan alluogi'r sector i wneud mwy i wella sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol leol ardal benodol.

Yn ogystal, cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddeddfwriaeth newydd sy'n caniatáu penodi hyd at ddau unigolyn i weithredu ar unrhyw adeg fel cynrychiolwyr ieuencid cymunedol. Mae sawl cyngor cymuned a thref wedi sefydlu cynghorau ieuencid a chynrychiolwyr ieuencid yn eu hardaloedd.

Etholir cynghorwyr i gynrychioli uned ddaearyddol unigol ar y cyngor, a elwir yn ward neu – mewn cymunedau llai yn bennaf – yr ardal gyfan y cyngor cymuned neu dref. Fel arfer cânt eu hethol gan y cyhoedd bob pum mlynedd.

Os bydd swydd wag yn codi o fewn cyngor cymuned neu dref yn ystod y tymor hwnnw, hysbysebir rhybudd yn lleol. Os na fydd mwy nag un person yn datgan diddordeb yn y swydd wag, caiff y cyngor ei gyfarwyddo i Gyfethol aelod.

Mae gan gynghorydd ddyletswydd i weithredu'n briodol a chyfrifoldeb penodol i:

- fynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned neu dref pan gânt eu galw i wneud hynny; yn ôl y gyfraith, mae'r hysbysiad i fynychu cyfarfod cyngor yn wŷs, oherwydd mae gennych ddyletswydd i fod yn bresennol;
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd trwy astudio'r agenda i sicrhau bod gennych yr wybodaeth briodol am y materion sydd i'w trafod, gan geisio cyngor lle y bo'n briodol;
- cymryd rhan mewn cyfarfodydd a ffurfio barnau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r gymuned – a chadw yna at benderfyniadau'r mwyafrif;
- sicrhau, gyda chynghorwyr eraill, fod y cyngor yn cael ei reoli'n briodol;
- gweithredu ar ran yr etholaeth gyfan i'r un graddau, ac nid y rhai a gefnogodd eich ymgyrch etholiadol yn unig;
- yn yr un modd, ymddiddori ym mhob mater i'r un graddau ac nid dim ond y materion lleol hynny y gwnaethoch ymgyrchu drostynt;
- gwrando, ac wedyn gynrychioli barn y gymuned wrth drafod busnes y cyngor a gweithio gyda chyrrff allanol;
- ymddwyn yn briodol fel cynrychiolydd etholedig y bobl.

Crynodeb o Gyfrifoldebau

1. Gwneud penderfyniadau – Trwy gyfarfodydd a mynychu pwyllgorau gydag aelodau etholedig eraill, mae cynghorwyr yn penderfynu pa weithgareddau i'w cefnogi, lle dylid gwario arian, pa wasanaethau y dylid eu darparu a pha bolisiau y dylid eu gweithredu. Wrth ymgymryd â'u rôl, maent yn rhwym o gadw at ddarpariaethau Cod Ymddygiad y Cynghorydd.
2. Monitro – Mae Cynghorwyr yn sicrhau bod eu penderfyniadau yn arwain at wasanaethau effeithlon ac effeithiol trwy gadw llygad ar ba mor dda mae pethau'n gweithio.

3. Cymryd rhan yn lleol – Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a sefydliadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar yr hyn y mae'r cynghorydd eisiau ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael, a gall gynnwys:

- Mynd i gyfarfodydd sefydliadau lleol fel cymdeithasau tenantiaid.
- Mynd i gyfarfodydd cyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach.
- Mynd i'r afael â materion ar ran aelodau'r cyhoedd.
- Cynnal cymorthfeydd fel y gall trigolion godi materion.
- Cyfarfod â thrigolion unigol yn eu cartrefi eu hunain.

Rheolau a rheoliadau i gynghorwyr

Disgwylir i bob cynghorydd gynnal y safonau ymddygiad uchaf. Mae angen i'r cyhoedd deimlo'n hyderus eich bod yn bodloni'r safonau uchel y mae ganddynt hawl i'w disgwyl gennych chi.

Mae cynghorwyr yn rhwym wrth God Ymddygiad statudol sy'n amlinellu'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran ymddygiad ac ymarweddiad; mae'r cod hwn yn berthnasol i gynghorwyr pryd bynnag y maent yn gweithredu neu'n ymddangos fel petaent yn gweithredu fel cynghorydd – yn fyr bron bob amser. Yn ôl y Cod, mae angen i gynghorwyr weithredu'n glir iawn yn y ffyrdd a amlinellir isod:

- Gweithredu er lles y cyhoedd yn unig – nid o blaid eich hun neu unrhyw un arall
- Byddwch yn onest a datgan unrhyw fuddiannau sydd gennych
- Gweithredu gyda gonestrwydd – heb eich dylanwadu gan unrhyw bobl neu sefydliadau er eu budd nhw
- Gweithredu o fewn y gyfraith
- Defnyddio adnoddau'r cyngor yn gyfreithlon ac yn ddoeth
- Gwneud penderfyniadau ar sail teilyngdod bob amser, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael
- Dylech bob amser ddangos parch at bobl eraill waeth pwy ydynt a beth maen nhw'n ei gredu
- Byddwch mor agored â phosibl am eich gweithredoedd a gweithredoedd y cyngor
- Byddwch yn barod i fod yn agored i'r cyhoedd graffu ar yr hyn a wnewch
- Arwain eraill drwy esiampl a bod yn batrwm o ymddygiad gadarnhaol ar ran y cyngor i'r cyhoedd a swyddogion

Gall achosion o dorri'r Cod gael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gall sancsiynau gynnwys ymddiheuriadau ffurfiol, hyfforddiant neu hyd yn oed atal neu anghymhwyso o'r swydd. Disgwylir i gynghorwyr gytuno'n ffurfiol i'r Cod wrth arwyddo eu bod yn derbyn swydd yn dilyn etholiad. (Ffynhonnell: Cod Ymddygiad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001)

Ydych chi'n gymwys i fod yn Gynghorydd?

Ydych – mae'r rhan fwyaf o bobl yn gymwys. Fodd bynnag, mae yna ychydig o reolau.

Rhaid i chi fod:

- yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd y Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd; a
- ar y “dyddiad perthnasol” (sef y diwrnod y cewch eich enwebu neu os oes pôl ar ddiwrnod yr etholiad) yn 18 oed neu drosodd;

Ac at hynny, eich bod:

- ar y “diwrnod perthnasol” yn etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal cyngor yr ydych am sefyll ynddi; neu
- wedi meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu eiddo arall yn ardal y cyngor yn ystod y 12 mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw; neu
- yn ystod yr un cyfnod wedi cael eich prif neu unig le gwaith yn ardal y cyngor; neu
- wedi byw yn ardal y cyngor (neu o fewn tair milltir iddo) yn ystod y cyfnod 12 mis hwnnw.

Ni allwch sefyll mewn etholiad os ydych chi:

- yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim.
- o fewn pum mlynedd cyn diwrnod yr etholiad, wedi cael eich collfarnu yn y Deyrnas Unedig o unrhyw drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (boed wedi'i atal ai peidio) am gyfnod o dros dri mis heb yr opsiwn o ddirwy.
- yn gweithio i'r cyngor yr ydych am ddod yn gynghorydd iddo (ond gallwch weithio i awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys y prif awdurdodau sy'n cynrychioli'r un ardal).

Ymlyniad Gwleidyddol

Mae croeso i chi fod, neu ddod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gydnabyddedig. Yn yr un modd, gallwch fod yn gynghorydd annibynnol ac heb fod yn gysylltiedig ag unrhyw blaid. Fel Cynghorydd Cymuned, bydd eich cysylltiad gwleidyddol yn cael ei gyhoeddi.

Dyletswyddau Penodol i Gyngor Cymuned Clydach

- Mynychu o leiaf 1 cyfarfod Cyngor Llawn o fewn pob cyfnod o 4 mis. Bydd methu â gwneud hyn yn anghymwysu cynghorwyr o'r swydd.
- Mynychu cyfarfodydd pwyllgor cyngor ar wahân yn ôl y gofyn, yn dibynnu ar eich aelodaeth o bwyllgorau.
- Mynychu sesiynau hyfforddi fel sy'n ofynnol gan reolau sefydlog y cyngor, oni bai bod unrhyw ofynion cenedlaethol yn eu disodli.
- Cefnogi digwyddiadau cyhoeddus y cyngor. Gall hyn gynnwys gwaith stiwardio, codi pebyll mawrion, casglu sbwriel, cysylltu â deiliaid stondinau.
- Cefnogi gyda gweithgareddau cymunedol a all gynnwys gosod baneri ledled y pentref bob blwyddyn, chwynnu planwyr blodau, casglu sbwriel, helpu gyda grwpiau lleol ac ati.
- Sicrhau fod eitemau a restrir fel camau gweithredu i chi yn sgil cyfarfodydd yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.
- Cymryd rhan mewn cymorthfeydd a gaiff eu trefnu gan y cyngor.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gall y rôl gynnwys cyfrifoldebau eraill i'w cyflawni yn ysbryd swydd cynghorydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn gynghorydd, fe'ch cynghorir i eistedd fel aelod o'r cyhoedd yn unrhyw un o gyfarfodydd cyhoeddus y cyngor a gynhelir ar yr ail ddydd Mawrth y mis (ac eithrio mis Awst).